# DEDDF COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU ETC. 2013

## Gorchymyn Conwy (Cymunedau) 2026

*Gwnaed* - - - - *[27/05/2026]*

*A ddaw i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"), yn unol ag adran 25 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") dyddiedig mis Ionawr 2025 ar ei arolwg o drefniadau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Conwy a'i argymhellion ar gyfer newidiadau iddynt.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno i weithredu argymhellion y Cyngor heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i argymhellion y Cyngor gael eu cyflwyno i'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn canlynol wrth arfer y pŵer a roddir iddo gan adran 38(1) Deddf 2013.

### Teitl a chychwyn

**1.**–(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Conwy (Cymunedau) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn–

> Mae "Map A" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
>
> Mae "Map B" yn golygu'r map a adneuwyd gan y Comisiwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac a atgynhyrchwyd i gyfeirio ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

lle dangosir ffin ar fap sy'n mynd ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troedffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, dylid ei thrin fel petai'n mynd ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, ac eithrio i'r graddau y mae bwriad croes yn ymddangos.

**Newidiadau i ardal llywodraeth leol**

**3.** Gwneir newidiadau yn ardal llywodraeth leol Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

**Tref Llandudno – newid i ardaloedd ward drefol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**4.** Mae'r rhan o ward drefol Mostyn a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fap A:

(a) yn cael ei throsglwyddo i ward drefol Tudno; ac

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tudno.

**5.** Mae'r rhan o ward drefol Tudno a ddangosir wedi'i lliwio'n las ar Fap B:

(a) yn cael ei throsglwyddo i ward drefol Craig y Don; ac

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Craig-y-Don.

Wedi'i selio â sêl Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar y **27ain** diwrnod o **Fai 2026**

**[27/05/2026]**


*Karen Jones*

Cadeirydd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru


**ATODLEN 1**

**MAP A – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD DREFOL – WARDIAU TREFOL MOSTYN A THUDNO**



**ATODLEN 2**

**MAP B – NEWIDIADAU I ARDALOEDD WARD DREFOL – WARDIAU TREFOL TUDNO A CHRAIG Y DON**



## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 38(1) Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), yn gweithredu argymhellion a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"). Adroddodd y Cyngor ym mis Mawrth 2026 ar ei arolwg o dan adran 25 Deddf 2013 o ffiniau cymunedol.

Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i ffiniau wardiau trefol Craig y Don, Mostyn, a Thudno yn Nhref Llandudno. Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i ffiniau'r wardiau trefol hynny.

Ni argymhellodd yr adroddiad newidiadau i enwau cymunedau a wardiau etholiadol, a rhoddwyd yr enwau presennol yn y mapiau.

Mae copïau argraffedig o fapiau ffiniau A i B y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â nhw wedi'u hadneuo a cheir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy [**ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol)**].